# Dyfodol Disglair Dwyieithog
# A Bright, Bilingual Future



Carreg Lam

Uned Drochi'r Iaith Gymraeg Torfaen

*Torfaen's Welsh Language Immersion Unit*

TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Pwy ydyn ni?

## Who are we?



Carreg Lam



Adeiladu dyfodol disglair **dwyieithog** i bawb

Building a bright, **bilingual** future for all

Gosod sail gref ar gyfer **safonau** academaidd a lles

Setting a firm foundation for academic and wellbeing **standards**

Dysgwyr **angerddol**

**Fired up** learners

**Lledaenu gorwelion** a pharotoi disgyblion ar gyfer bywyd

Expanding horizons and **preparing children for life**

Darparu profiadau a chyfleoedd **cyfoethog**

**Rich** learning experiences and opportunities

**Bachu ar gyfleoedd** arloesi

Grasping chances for **innovation**

Ymfalchïo yn ein **Cymreictod**, iaith, hunaniaeth a threftadaeth

Loving our **Welshness**, language, identity and heritage

**Cynnu tân** dewrder, chwilfrydedd a chymhelliant

Lighting the fire of **bravery, curiosity and motivation**

Cenhedaeth gref sy'n **agor drysau i ddysgwyr**

A **strong mission** that opens doors for learners

# Amdanon Ni

Rydym yn uned darpariaeth drochi hwyr yn helpu dysgwyr sy'n dechrau addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach (o 7-11 oed) a disgyblion nad oedd y Gymraeg efallai'n rhan o'u trefn feunyddiol, i ennill y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i barhau â'u dysgu trwy'r Gymraeg. Mae'r canolfan yn croesawu disgyblion o ysgolion Saesneg sydd eisiau trosglwyddo i addysg gyfrwng Gymraeg. Yn gyffredinol, bydd plant yn ymuno â'r uned am gyfnod dysgu dwys o tua 12 wythnos cyn mynd trwy gyfnod o integreiddio a phontio i leoliadau prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen. Mae ein enw, 'Carreg Lam', yn meddwl 'stepping stone' yn Saesneg oherwydd rydym yn bont i ddyfodol dwyieithog ar gyfer pob disgybl.



### Cyfeiriad y Ganolfan

Carreg Lam c/o Ysgol Panteg, Heol Yr Orsaf, Tre Griffith, Pont-y-Pŵl, Torfaen, NP4 5JH

### Rhif Ffôn

01495 762581

### Cyfeiriad E-Bost

carreg-lam@torfaen.gov.uk

### Gwefan

www.carreg-lam.com

### Pennaeth y Ganolfan

Dr. Matthew James Dicken, MA(Ed), PGCert, BA(Hons)

### Arweinydd ac Athrawes y Ganolfan

Mrs. Carys Soper

### Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Mr. Huw Coburn

### Nifer o Ddisgyblion yn y Ganolfan

12 Disgybl o Flwyddyn 2 hyd at Flwyddyn 6

# About Us

We are a late immersion provision unit set up to help learners entering Welsh-medium education at a later stage (between 7-11) and pupils for whom Welsh may not have been part of their daily routine, to gain the skills and confidence needed to continue their learning through Welsh. The centre welcomes pupils from English schools who want to transfer to Welsh medium education. Children generally will join the unit for an intense learning period of approximately 12 weeks before then undergoing a period of transitioned integration into Welsh-language main stream settings within Torfaen. Our name, 'Carreg Lam', means stepping stone because we are a bridge into a new bilingual future for every pupil.



## The Centre's Address

Carreg Lam c/o Ysgol Panteg, Station Road, Griffithstown, Pontypwl, Torfaen, NP4 5JH

## Phone Number

01495 762581

## Email Address

carreg-lam@torfaen.gov.uk

## Website

www.carreg-lam.com

## Head of the Unit

Dr. Matthew James Dicken, MA(Ed), PGCert, BA(Hons)

## Leader and Teacher of the Unit

Mrs. Carys Soper

## Chair of the Governing Body

Mr. Huw Coburn

## Number of Pupils in the Centre

12 Pupils from Year 2 to Year 6

# Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion

## Addysgu a Dysgu

▪ Canolfan addysg drochi arloesol, sydd yn seiliedig ar arbenigedd ac yn cyfoethogi'r profiad addysgu a dysgu yn ogystal ag annog rhagoriaeth yn y maes.

▪ Deilliannau rhagorol ar gyfer yr holl ddysgwyr yn gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd, a thrwy hynny eu gwneud yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu yng nghyfundrefn addysg Gymraeg yn Nhorfaen a thrwy gydol eu hoes.

▪ Cyfundrefn a chanolfan addysg drochi gyfoes sydd yn dathlu hunaniaeth, ymwybyddiaeth o iaith a threftadaeth, gan ddatblygu dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

## Amgylchedd Dysgu

▪ Amgylchedd dysgu gynhwysol sydd yn ymateb i anghenion amrywiol gan gynnwys dysgwyr bregus a dysgwyr gydag anghenion ychwanegol.

▪ Amgylchedd Dysgu sydd yn manteisio ar y dechnoleg fwyaf cyfoes i roi profiadau a sgiliau amrywiol i ddysgwyr wrth gaffael iaith.

## Y Cwricwlwm

▪ Cyfundrefn addysg drochi gadarn sy'n gallu addasu i gwrdd ag unrhyw newidiadau perthnasol ym myd addysg.

▪ Darpariaeth addysg drochi gyfoes sydd yn addas i bwrpas sy'n adlewyrchu gofynion y dysgwyr a'r cwricwlwm.

▪ Canolfan addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i gefnogi a darparu'r cwricwlwm.

## Cefnogaeth i Ddysgwyr

▪ Canolfan addysg drochi sy'n cynnig darpariaeth fugeiliol ragorol gan roi anghenion y dysgwr yn ganolog.

▪ Cyfundrefn addysg drochi sy'n sicrhau mynediad at gymorth a chefnogaeth o ansawdd uchel sydd wedi ei gynllunio o amgylch y dysgwr.

▪ Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion i sicrhau cymorth a chefnogaeth priodol i'r dysgwr a'u teuluoedd.



# Our Vision and Aims

## Teaching and Learning

▪ An innovative immersion education centre, which is based on expertise and enriches the teaching and learning experience as well as encouraging excellence in the field.

▪ Excellent outcomes for all learners which lay a solid foundation in the Welsh language developing a lifelong interest in the languages of Wales and the languages of the world, thereby making them ambitious, capable learners, who are ready to learn in the Welsh education system in Torfaen and throughout their lives.

▪ A contemporary immersion education system and centre that celebrates identity, awareness of language and heritage, developing learners who are ethical, informed citizens ready to be citizens of Wales and the world.

## Learning Environment

▪ An inclusive learning environment that responds to varying needs including those of vulnerable learners and learners with additional needs.

▪ A learning environment that takes advantage of the most up-to-date technology giving learners a range of experiences and skills when acquiring a language.

## The Curriculum

▪ A robust and durable immersion education system that can adapt to meet any relevant changes in the world of education.

▪ Provision of up-to-date, fit for purpose immersion education and reflects the requirements of learners and the curriculum.

▪ An immersion education centre that works in partnership with schools to support and deliver the curriculum.

## Support for Learners

▪ An immersion education centre that offers excellent pastoral provision putting the learner's needs at the centre.

▪ An immersion education system that ensures access to high quality help and support that is designed and planned around the learner.

▪ An immersion education system that works in partnership with the schools to ensure appropriate help and support for the learner and their families.



# Sut fydd y fy mhlentyn yn dysgu'r iaith?


## Cefnogaeth Dysgu'r Iaith

Rhagwelir bod disgyblion yn mynychu Carreg Lam ar gyfer 12 wythnos er mwyn dysgu'r iaith mewn ffordd strwythedig a phwrpasol, wedi arwain gan arbenigwyr, cyn trosglwyddo i'r prif ffrwd o fewn ysgol gyfrwng Gymraeg yn Nhorfaen. Dysgir geirfa, patrymau ieithyddol a strwythurau'r iaith trwy ddulliau sydd wedi'u profi i weithio (megis chwarae rôl, gemau, drilio iaith). Golygir hyn fod disgyblion yn meddu ar ryglder sylfaenol yn y Gymraeg, yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn datblygu sgiliau meddwl ac yn cael eu paratoi ar gyfer mynychu ysgol gyfrwng Gymraeg.

Yn dilyn y 12 wythnos cychwynnol hyn, lle mae'r plant yn profi dysgu ieithyddol dwys er mwyn ysgogi sgiliau iaith sylfaenol, mae'r canolfan yn parhau i'w cefnogi trwy ymweliadau, cydweithio gyda'r ysgolion a mewnoli cynllun wedi'u personoli o strategaethau a chymorth.

## Tair Carreg Lam

Mae ein cymorth dysgu iaith, felly, yn digwydd mewn tri cham ac mae'r lefel o gymorth a darpariaeth sydd angen ar bob plentyn yn amrywio o fewn y camau hyn.




## Sut fydd fy mhlentyn yn ymdopi?

Yng Ngharreg Lam, rydyn ni'n blaenoriaethu lles ein disgyblion, staff a rhieni. Mae ethos o deulu yng nghalon popeth rydyn ni'n gwneud er mwyn sicrhau amgylchedd hapus a diogel. Rydym yn cadw golwg manwl ar ddatblygiad a theimladau'r disgyblion ynghyd â monitro cyson o'u perfformiad. Sicrhewn bod eich plentyn yn derbyn cyfleoedd dyddiol i ymgysylltu gyda disgyblion oed eu hunain a gofal llesol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi iechyd emosiynol a lles ein plant drwy:

- helpu plant i ddeall eu hemosiynau a theimladau yn well;
- helpu plant i deimlo'n gyfforddus trwy rannu unrhyw bryderon;
- helpu plant i greu perthnasau positif.
- hybu hunan-barch a sicrhau fod plant yn gwybod eu bod nhw'n bwysig;
- annog plant i fod yn hyderus a dathlu ein cymuned a'n hetifeddiaeth;
- helpu plant i ddatblygu gwytnwch emosiynol ag i ymdopi gyda rhwystrau bywyd.

# How will my child learn the language?

## Support with Learning the Language

It is anticipated that pupils attend Carreg Lam for 12 weeks in order to learn the language in a structured and purposeful way, guided by experts, before transferring to a mainstream class within a Welsh medium school in Torfaen. Vocabulary, linguistic patterns and language structures are taught through methods that have been proven to work (such as role playing, games, language drills). This means that pupils have a foundational fluency in the Welsh language, can access the ability to use the Welsh language in a variety of situations, develop thinking skills and are prepared for attending a Welsh medium school.

Following these initial 12 weeks, where the children experience intensive language learning in order to stimulate basic language skills, the centre continues to support them through visits, collaboration with their school and creating a personalised plan of strategies and support.

## Three Stepping Stones

Our language learning support, therefore, takes place in three stages and the level of support and provision each child needs varies within these stages.




## How will my child cope?

At Carreg Lam, we prioritise the wellbeing of our pupils, staff and parents. The ethos of being a family is at the heart of everything we do to ensure a happy and safe environment. We keep a close eye on the pupils' development and feelings along with constant monitoring of their performance. We ensure that your child receives daily opportunities to engage with pupils of their own age and active care. We are committed to supporting the emotional health and wellbeing of our children by:

- *helping children to understand their emotions and feelings better;*
- *helping children feel comfortable sharing any concerns or worries;*
- *helping children socially to form and maintain relationships;*
- *promoting self-esteem and ensure children know that they count;*
- *encouraging children to be confident and celebrate who we are;*
- *helping children to develop emotional resilience and to manage setbacks.*

# Cyfleoedd Cyfartal | Equal Opportunities

Credwn fod pob unigolyn, o ba bynnag allu, hil, crefydd neu gefndir yn haeddu cyfle cyfartal i lwyddo yn y ganolfan hon. Rydym yn falch o fod yn ysgol sy'n croesawu disgyblion, staff a rhieni o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywioldeb, anabledd, crefydd, iaith, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran. Ymdrechwn i greu cymuned sy'n dathlu amrywiaeth yn hytrach na rhagfarn.

We believe that each individual, of whatever ability, race, religion or background deserves equality of opportunity to succeed in this centre. We are proud to be a school that welcomes pupils, staff and parents from different social backgrounds, race, sexuality, disability, religion, language, sexual orientation and age. We strive to create a community that celebrates diversity rather than prejudice.

## Anabledd | Disabilities

Dyluniwyd adeilad y ganolfan (Ysgol Panteg) i ddarparu mynediad i ddisgyblion a staff ag anableddau corfforol, fel a ganlyn:

- Mae'n hawdd cyrraedd y brif fynedfa;
- Mae'n hawdd agor drysau (dolenni isel);
- Toiledau i'r anabl;
- Coridorau eang a drysau ystafell ddosbarth eang;
- Mynediad hawdd i neuadd yr ysgol a mynediad i'r maes chwarae ar un lefel.

The centre’s building (Ysgol Panteg) is designed to provide access to pupils and staff with physical disabilities, as follows:

- Main entrance is easily accessed;
- Doors are easily opened (low handles);
- Disabled toilets;
- Wide corridors and wide classroom doors;
- Easy access to school hall and playground access on one level.

## Mynediad at y Cwricwlwm | Access to the Curriculum

Mae cwricwlwm y ganolfan yn gytbwys ac yn eang, ac yn cynnig cyfleoedd i bawb lwyddo. Trefnir gweithgareddau'n ofalus gan roi ystyriaeth i'r canlynol:

- Gallu academaidd pob disgybl;
- Gallu corfforol pob disgybl;
- Diddordeb a thalent pob disgybl;
- Cefndir crefyddol pob disgybl;
- Cefndir cymdeithasol pob disgybl;
- Cefndir ethnig pob disgybl.

The centre’s curriculum is balanced and broad, and offers opportunities for all to succeed. Activities are organised carefully with consideration given to the following:

- Academic ability of each pupil;
- Physical ability of each pupil;
- Interest and talent of each pupil;
- Religious background of each pupil;
- Social background of each pupil;
- Ethnic background of each pupil.

# Ysgolion Torfaen | Torfaen Schools

Yn dilyn eu hamser yn y ganolfan arbenigol drochi iaith hon, mae dysgwyr yn trosglwyddo i ddosbarthiadau prif-ffrwd o fewn ysgolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Felly, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r ysgolion ar draws y sir.

Following their time at this specialist language immersion centre, learners transfer to mainstream classes within schools in Torfaen County Borough Council. Therefore, we work very closely with the schools across the county.

## Ysgol Panteg

Station Road,
Griffithstown,
Pontypool,
Torfaen,
NP4 5JH
www.ysgolpanteg.cymru
01495 762581
head.ysgolpanteg@torfaen.gov.uk

## Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Henllys Way,
St. Dials,
Cwmbrân
Torfaen,
NP44 4HB
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
01633 483383
head.ysgolgymraegcwmbran@torfaen.gov.uk

## Ysgol Bryn Onnen

Varteg Road,
Varteg,
Pontypool,
Torfaen
NP4 7RT
www.ysgolbrynonnen.com
01495 772284
head.ysgolbrynonnen@torfaen.gov.uk

## Ysgol Gymraeg Gwynllyw

Folly Road,
Trevethin,
Pontypool,
Torfaen,
NP4 8JD
ysgol-gymraeg-gwynllyw.weebly.com
01495 750405
yggswyddfa@gwynllyw.schoolsedu.org.uk

# Gwnewch gais heddiw!
# Apply today!

## Cysylltwch gyda ni drwy ffonio neu ebostio er mwyn trefnu ymweliad!
## Contact us via phone or email to arrange a visit!


Carreg Lam c/o Ysgol Panteg,
Heol yr Orsaf, Tre Griffith, Pont-y-Pŵl, Torfaen, NP4 5JH
carreg-lam@torfaen.gov.uk


Mae croeso i chi gysylltu gyda'r ganolfan drochi yn Gymraeg neu Saesneg | You are welcome to contact the immersion centre in Welsh or English

Cymraeg